

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR
GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau
Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

17 Tachwedd 2020

Cyfarfod Rhithiol

Presenoldeb:

Cynghorwyr:

Anne Lloyd Jones (Cadeirydd), Annwen Daniels, Annwen Davies, Anwen Hughes, Judith Humphreys, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Edgar Wyn Owen, Robert Dewi Owen, Dewi Wyn Roberts.

Swyddogion:

Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Eraill a wahoddwyd:

Carey Cartwright, Sam Angel a Cara Williams (Tîm Dysgu a Datblygu) ar gyfer eitem 9.

Ymddiheuriadau:

Y Cynghorydd Linda Ann Jones.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR
GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau
Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd	17 Tachwedd 2020
--	---------------------

PWNC

Eitem 6 :CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

PENDERFYNIAD

- (a) Derbyn yr adroddiad.
- (b) Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr at yr aelodau yn hyrwyddo'r ad-daliadau mewn ymgais i godi'r niferoedd sy'n hawlio.

Rhesymau:

Nodwyd yn yr adroddiad fod y niferoedd sy'n hawlio'r ad-daliad am gostau personol neu gostau gofal yn parhau i fod yn isel iawn ac felly mae angen i'r Pwyllgor hybu'r ddarpariaeth.

CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

O blaid	10
Yn erbyn	0
Atal	0

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO
CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau
Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd	17 Tachwedd 2020
---	---------------------

PWNC

Eitem 7: ABSENOLDEB MABWYSIADU

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

Rhesymau:

Nodwyd y byddai hyn yn sicrhau bod aelodau etholedig yn derbyn yr un hawliau a swyddogion.
Awgrymwyd y byddai hyn yn hybu amrywiaeth mewn democratiaeth.

CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

O blaid	10
Yn erbyn	0
Atal	0

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR
GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau
Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd	17 Tachwedd 2020
---	---------------------

PWNC

Eitem 8:DATBLYGIADAU A CHEFNOGAETH I AELODAU DROS Y CYFNOD COVID AC I'R DYFODOL.

PENDERFYNIAD

- (a) Derbyn yr adroddiad.
- (b) Cytunwyd bod angen trafodaethau ymhellach ar y ffordd ymlaen wedi i'r aelodau leisio eu barn ar ffurf cyfarfodydd y dyfodol.

Rhesymau:

Yn dilyn trafodaeth ar ddulliau cyfarfod presennol ac ar gyfer y dyfodol, mynegwyd dymuniadau i weld rhai pwyllgorau arbennig yn cwrdd wyneb i wyneb fel bo angen.

Ystyriwyd bod y dull presennol yn gyfleus mewn sawl ffordd wrth arbed amser teithio a chostau, fodd bynnag roedd teimlad ei bod yn hanfodol cwrdd yn gorfforol mewn rhai achosion. Derbyniwyd y sylwadau o'r drafodaeth agoriadol a bydd y sylwadau yn cael eu cyflwyno i drafodaethau mewnol pellach.

CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

O blaid	10
Yn erbyn	0
Atal	0

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau
Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)

Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd	17 Tachwedd 2020
---	---------------------

PWNC

Eitem 9:DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

Rhesymau:

Oherwydd yr argyfwng Covid-19, ni fu'n bosib cynnal hyfforddiant yn y ffordd 'draddodiadol' ers peth amser, a bu'n anorfod datblygu dulliau amgen e.e. hyfforddiant rhithiol ('o bell') ar gyfer y dyfodol.

Gyda hyn mewn golwg, lluniwyd rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2020/21, gan ymdrechu i gynnal amrywiaeth o deitlau perthnasol o ansawdd uchel.

Nodwyd bod nifer o'r aelodau presennol wedi bod ar y cyrsiau hyfforddiant ac yn croesawu'r dull newydd o'u gweithredu'n rhithiol. Ategwyd bod mwy o aelodau yn mynychu oherwydd y natur hwylus o dderbyn hyfforddiant o bell.

CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

O blaid	8
Yn erbyn	0
Atal	0

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau
Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)

Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd	17 Tachwedd 2020
---	---------------------

PWNC

Eitem 10:AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad a chefnogi cyfeiriad y rhaglen waith.

Rhesymau:

Sefydlwyd Is-grŵp amrywiaeth er mwyn ymdrechu i geisio hybu mwy o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd i sefyll etholiad ar gyfer Llywodraeth Leol.

Gyda newid deddfwriaethol yn golygu y gall pobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru o 2021 ymlaen ac etholiadau Llywodraeth Leol o 2022 ymlaen.

Mae'r newid deddfwriaethol wedi dod a chyfleoedd yn ei sgil.

Nodwyd bod y cyfnod presennol yn adlewyrchu'r angen i gael aelodau o wahanol gefndiroedd fel eu bod yn gallu ymateb mewn dulliau amrywiol i'r heriau sy'n codi o fewn y gymuned.

CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

O blaid	8
Yn erbyn	0
Atal	0

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.
